# 10fed Cyfarfod Grŵp Ecosystem Arfordirol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 22 Ionawr 2014, Swyddfeydd CNC/LlC, Aberystwyth

**Presennol**: Mike Howe (CNC) Cyd-gadeirydd; Emmer Litt (CNC) Cyd-gadeirydd; Sean McHugh (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru); Alan Kearsley-Evans (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol); Nick Edwards (CNC); Duncan Ludlow (CNC); Chris Wynne (Ymddiriedolaethau Natur Cymru) trwy delegynhadledd

**Ymddiheuriadau**: Jane Hodges (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro); John Clark (Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB Cymru); Matty Murphy (CNC); Mark Winder (Cyngor Bwrdeistref Sirol Abertawe); Quentin Grimley (CNC); Ant Rogers (Cyngor Sir Penfro).

1. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

   Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf 2013 yn gofnod cywir.

   Ni wnaeth y cyfarfod ddilyn trefn wreiddiol yr agenda. Gohiriwyd yr eitem Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol (Rick Park) hyd gyfarfod Haf y Grŵp Ecosystem Arfordirol a'r gobaith yw y bydd Olivia Burgess (Ystadau'r Goron) yn gallu ymuno â'r cyfarfod.

2. Dywedodd Mike wrth y grŵp fod Peter Rhind (cyn Gadeirydd y Grŵp Ecosystem Arfordirol) wedi ymadael yn gynnar o'i swydd yn CNC a'i bod yn annhebygol y byddai CNC yn llenwi'r swydd 'tebyg am debyg'. Yn y cyfamser byddai Mike ac Emmer yn cyd-gadeirio hyd nes y byddai'r sefyllfa'n gliriach. Ar ran y Grŵp Ecosystem Arfordirol, estynnwn ein diolch i Peter am ei holl waith a dymunwn y gorau iddo yn y dyfodol.

3. Diweddariadau Grŵp. Paratoi adroddiad cofnodi newid amgylcheddol arfordirol. Cyflwynodd Emmer yr eitem. Yn sgil y llifogydd arfordirol a thorri amddiffynfeydd arfordirol yn ystod y stormydd diweddar, mae LlC wedi gofyn i CNC gasglu'r wybodaeth hon ynghyd. Bydd ffocws ar 'amddiffynfeydd caled' ond mae'n bwysig ein bod yn cynnwys 'amddiffynfeydd meddal', twyni, cefnau cerrig mân etc yn y gwaith hwn. Bydd adolygiad arall ym mis Chwefror/Mawrth a fydd yn helpu i flaenoriaethu atgyweiriadau/addasiadau arfordirol. Amlinellwyd cofnodion o ddifrod stormydd arfordirol gan y grŵp gan gynnwys: tirlithriad cerrig mân ar Draeth Pensarn (Conwy); cylchlithriad mawr ar draeth Rhosili a difrod i forglawdd yng Nghwm Ivy (y ddau yn y Gŵyr); llifogydd yn Niwgwl gyda dŵr y môr yn llifo dros y cefnau cerrig mân a chylchlithriadau clogwyni meddal yn Abereiddi ac Abermawr (i gyd yn Sir Benfro); dŵr môr yn gorlifo yn Nhwyni Whiteford (Gŵyr) ond nid mor bell â'r safle ailgyflwyno *Liparis loeselii*; clogwyni yn erydu yn Nhwyni Merthyr Mawr (Pen-y-bont ar Ogwr) a rhywfaint o'r traeth a'r tywod wedi mynd; lledu rhicynnau yng Nghynffig (Pen-y-bont ar Ogwr) – effaith gadarnhaol a fydd yn cynorthwyo twyni i symud; Cemlyn (Ynys Môn) – cefnau cerrig mân wedi golchi drosodd a chefnau cerrig mân yn symud i'r tir; traeth yn erydu ger safle cornicyllod allweddol ym Morfa Madryn (Conwy); twyni'n erydu yn Nhywyn Niwbwrch (Ynys Môn) a phlatfform gwylio wedi'i olchi ymaith; twyni tywod wedi'u rhwygo ymaith yng Nghwningar Talacre (Sir y Fflint); twyni tywod yn erydu ym Morfa Harlech a Morfa Dyffryn (Gwynedd); clogwyni'n erydu ar Draeth Porth Mawr (Sir Benfro) sy'n bygythio chwilen y dŵr brin (*Ochthebius poweri*) sy'n byw mewn tryddiferiadau clogwyni meddal; a

chlogwyni'n erydu sy'n bygwth y saerwenynen *Osmia xanthomelana* ym Mhorth Neigwl (Gwynedd).

Mae'r stormydd yn amlwg wedi amharu ar Lwybr Arfordir Cymru ac mae Quentin Grimley (CNC) wrthi'n cynhyrchu synthesis a fydd yn cael ei ychwanegu at yr adroddiad terfynol. Byddwn yn adrodd i LlC mewn dau gam. Gwneir y cyntaf erbyn diwedd mis Ionawr, a fydd yn rhoi'r penawdau i LlC am yr hyn sydd wedi digwydd yn lle. Bydd ail gam mwy manwl i ddilyn a bydd y manylion o ran yr hyn y gallai'r cam hwn ei gynnwys yn dibynnu ar raddfa a lleoliadau'r newidiadau a gofnodwyd.

**4.** Bylchau Tystiolaeth. Mae angen i'r Grŵp Ecosystem Arfordirol adolygu a mireinio'r gwaith ar fylchau tystiolaeth; roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y prosiectau morfeydd heli y mae Rick Park (CNC) yn rhan ohonynt yn rhan o'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; mae eraill yn cynnwys dynameg cerrig mân â llystyfiant ym Mhensarn a chyfraddau erydu clogwyni meddal mewn safleoedd amrywiol. Bydd Emmer a Mike yn gweithredu hyn gydag Angus a Rick yn barod ar gyfer seminar y Gwanwyn i Academyddion yng Nghaerdydd. Pawb i adolygu tudalen brosiectau'r bylchau tystiolaeth ac awgrymu bylchau o ran prosiectau/tystiolaeth.

**5.** REF. Roedd dau brosiect llwyddiannus yn y rownd ddiweddaraf. Mae Prifysgol Abertawe yn ymchwilio i ryngweithio rhisomau ffwngaidd-planhigion ac ecosystemau'n gweithredu mewn twyni arfordirol (Mike Howe yw swyddog arweiniol CNC) ac mae prosiect Cyngor Sir Caerfyrddin yn dileu rhafnwydd morol ym Mhen-bre (swyddogion arweiniol CNC – Helen Howells a Glyn Lloyd Jones). Mae hefyd prosiect yn ne Gŵyr sy'n dileu cotoneasteriaid o lethr arfordirol â llystyfiant – dilynodd y prosiect hwn y llwybr INNS. O ran y gronfa natur £6 miliwn, bu Mike mewn gweithdy ariannu yng Nghyffordd Llandudno ond ni chafodd yr un ymholiad arfordirol yn y gweithdy. Roedd aelodau presennol y Grŵp Ecosystem Arfordirol wedi cyflwyno syniadau i'r cronfeydd sy'n ymwneud ag adfywio twyni tywod arfordirol, gwaith yn y Gŵyr a Freshwater East (Sir Benfro) a phrosiectau amrywiol yng ngogledd Cymru.

**6.** Adrodd ar Erthygl 17. Mae metrigau asesu amodau ar gael ar gyfer nodweddion ACA cymwys rhywogaethau a chynefinoedd. Mae'r JNCC wedi cynhyrchu taenlen gryno ar gyfer y DU ac mae taenlen yn dogfennu'r nodweddion yng Nghymru. Bydd Mike yn dethol nodweddion arfordirol o Gymru ac yn dosbarthu. Yn gyffredinol, dywedodd yr asesiad fod llawer iawn o nodweddion ACA arfordirol yn dirywio yn y DU ac yng Nghymru.

**7.** Symposiwm Clogwyni Glan Môr. Cynhaliwyd y Symposiwm ym mis Medi 2013, roedd Mike Howe a Peter Rhind yn bresennol a chafwyd cyflwyniad gan y ddau. Dywedodd Mike fod y cyflwyniadau o safon uchel ond roedd y niferoedd a oedd yn bresennol (~40) braidd yn siomedig. Bydd Mike yn anfon dolen i'r trafodion pan fydd ar gael.

**8.** Mapiau Cynefinoedd â Blaenoriaeth. Mae mapiau a chrynodebau cysylltiedig ar gael ar gyfer twyni tywod, morfeydd heli a chlogwyni caled a meddal arforol. Nid oes map cerrig mân â llystyfiant wedi'i gynhyrchu hyd yn hyn. Mae angen adolygu'r mapiau yn ogystal ag integreiddio â mapio glaswelltir a rhostiroedd iseldir yn enwedig i hyrwyddo cysylltedd a phrosiectau graddfa tirwedd.

**9.** Cynllun gwaith/aelodaeth y Grŵp Ecosystem Arfordirol. Mae angen diweddaru'r cynllun gwaith a'i ymestyn i 2016. Rhestr Aelodaeth y Grŵp Ecosystem Arfordirol – bydd Mike ac Emmer yn edrych ar gynrychiolaeth CNC i sicrhau ymglymiad ledled cylch gwaith CNC a mewnbwn rhanbarthol cryfach. Adolygir aelodaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a LlC. Bydd Chris yn trafod â'r Ymddiriedolaethau Natur i geisio cael dirprwy pe na fyddai'n gallu bod yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall** Mae Mike yn gwthio CNC i ddefnyddio arian tirlenwi ar gyfer prosiectau arfordirol. Er bod angen cadarnhau'r materion cyfreithiol o ran cyfrifoldebau rheoleiddio CNC, byddai ceisiadau llwyddiannus yn sicrhau cyllid y mae mawr ei angen ar gyfer gwaith ar y twyni. Clirio coed o dwyni tywod – yn amlwg mae hyn yn fater sensitif. Gallai rhywfaint o waith clirio gael ei wneud yn Nhywyn Niwbwrch, Morfa Harlech a Thwyni Whiteford. Mae Mike ac Emmer yn ymweld â Thwyni Pen-bre a byddant yn siarad â chydweithwyr ac eraill i weld sut y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith o ddileu conifferau a rheoli rhafnwydd morol. Gan fod angen cyfateb i gronfeydd natur LIFE, mae dewis o weithio gyda gwledydd datganoledig ac mae angen cadw golwg ar weithgarwch yn yr Alban lle mae prosiect i ddileu conifferau o dwyni tywod yn cael ei arwain gan Gomisiwn Coedwigaeth yr Alban (FCS).

    Mae prosiect symud twyni tywod a hydroleg arfaethedig yn Nhwyni Llangynydd (Gŵyr) yn rhan o gynnig ymchwil ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe. Mae Emmer wedi cysylltu ond nid yw wedi clywed a yw'n mynd rhagddo. Awgrymodd y grŵp safleoedd amgen e.e. Whiteford, Cenfig, Merthyr Mawr. Bydd Emmer yn mynd ar drywydd hyn.

    Cynhaliwyd Seminar 'Coastal Futures' yn Llundain yn ddiweddar gydag amrywiaeth o siaradwyr uchel eu proffil. Bydd Mike yn cael dolenni'r trafodion. Bu Emmer yng nghynhadledd 'Future Vision for the Coast' yn Lerpwl yn gynharach ym mis Ionawr a bydd yn adrodd i'r Grŵp Ecosystem Arfordirol. Roedd y gynhadledd yn ystyried gyrwyr hir dymor a'u heffaith ar yr arfordir.

    Bellach mae rhwydwaith arfordirol yn CNC. Bydd y rhwydwaith a'r Grŵp Ecosystem Arfordirol yn rhannu gwybodaeth.

    **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

    Mae'r grŵp yn bwriadu cael cyfarfod yn ystod mis Mehefin 2014 a bydd y cyfarfod yn cynnwys ymweliad maes. Dosberthir dolen y cyfarfod yn y dyfodol agos.

**Camau Gweithredu**

| Rhif | Camau Gweithredu | Pwy | Erbyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Taenlen Newid Amgylcheddol Arfordirol | PAWB | 31 Ionawr | Llenwch ar ran eich sefydliad<br>Dylid rhoi'r ffurflenni wedi'u llenwi i Nicola Rimington (Nicola.Rimington@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)<br>Chris Wynne i gasglu adroddiadau'r Ymddiriedolaethau Natur; Sean i gysylltu â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i dynnu eu sylw at y daenlen. |
| 2 | Prosiect Bylchau mewn Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | MH/EL/AG<br><br>PAWB | 21 Chwe<br><br>21 Chwe | Mike ac Emmer i gwrdd ag Angus ac ystyried gwaith Rick Park<br><br>Adolygu'r wybodaeth, nodi bylchau a chyflwyno prosiectau arfaethedig. Mae manylion bylchau mewn tystiolaeth a chynigion prosiect ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Dolen: http://biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth-PBC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Adrodd ar Erthygl 17 | MH | 21 Chwe | Bydd MH yn gweithio ar ddistyllu nodweddion ACA cyflwr arfordir Cymru o'r prif daenlen(ni) a byddant ar gael ar ôl derbyn cymeradwyaeth i'w rhyddhau |
| 4 | Symposiwm Clogwyni Glan Môr | MH | | MH i ddosbarthu trafodion y symposiwm pan fyddant ar gael |
| 5 | Mapiau Cynefinoedd â Blaenoriaeth | MH | Mehefin 2014 | Mike i siarad â Jan Sherry (Grŵp LHG) i edrych am gyfleoedd ar gyfer prosiectau ar y cyd |
| 6 | Cynllun gwaith y Grŵp Ecosystem Arfordirol<br><br>Aelodaeth y Grŵp Ecosystem Arfordirol | Pawb | 7 Chwe<br><br>28 Chwe | Pawb i adolygu'r Cynllun a rhoi mewnbwn.<br><br>Mike ac Emmer i fireinio cynrychiolaeth CNC, ac aelodaeth Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a LlC i'w hadolygu gan Sean. Bydd Chris yn cysylltu â'r Ymddiriedolaethau Natur i geisio cael dirprwy gynrychiolydd. |
| 7 | Cynadleddau arfordirol | MH/EL | Mawrth 2014 | Bydd Mike ac Emmer yn dosbarthu dolenni i ddigwyddiadau cynhadledd arfordirol a gynhaliwyd yn ddiweddar |
| 8 | Prosiect arfaethedig ar symudiad twyni tywod a hydroleg yn Llangynydd | EL | Mehefin 2014 | Bydd Emmer yn ymchwilio ac yn diweddaru'r grŵp yn y cyfarfod nesaf |
| | | | | |
| | | **Diweddariad ar Gamau Gweithredu Blaenorol** | | |
| | Ardaloedd graeanog arfordirol â llystyfiant sy'n cael blaenoriaeth | Peter Rhind | Parhaus | Roedd Peter yn mynd i'r afael â hyn ond nid oedd yn gallu cwblhau'r gwaith. Mae wedi'i ohirio yn ddibynnol ar ad-drefnu tîm arfordirol CNC |
| | Rhannu trafodion y Gweithdy Twyni Tywod. | Peter Rhind | Parhaus | Nid yw'r trafodion wedi'u cwblhau na'u cyhoeddi eto. |